

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Lun, Ionawr 10fed 2022 dros Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Gary Thomas, Bethan Thomas, Eifion Davies, Gwenda Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

i) Dwr yn llifo ar draws y ffyrdd, ar y A4212 yn Frongoch ger cyffordd y B4501, ar y trofeydd cyn Wern Fawr ac wrth Neuadd Mynach a gyferbyn a Bryn Melyn Llandderfel. Cafwyd cadarnhad fod y gweithlu am glirio'r cylfatiau yn Frongoch a Chwmtirmynach. Roedd yr Arolygwr Priffyrdd yn ceisio darganfod pwy oedd yn gyfrifol am y safle lle'r oedd y dŵr yn codi ger Bryn Melyn.

ii) Coed yn gwyro i'r ffordd ger Ty'n Bwlch, Glanrafon – roedd y gweithlu am docio'r coed.

iii) Pont Llandderfel a'r wal gyferbyn a Llwynbrain, Cwmtirmynach - cafwyd cadarnhad fod y gweithlu am drwsio pont Llandderfel rŵan ac mi fyddai'r gwaith yng Nghwmtirmynach yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

b) Mynwentydd

i) Ail hysbysebu'r gwaith torri glaswellt y mynwentydd - cytunwyd i osod yr hysbyseb ar y wefan ac ym Mheth Penllyn.

ii) Diweddariad ar y gwaith cynnal a chadw - nodwyd fod dal angen clirio gweddill o'r rwbel o fynwent Llandderfel. Trafodwyd y pris a dderbyniwyd ar gyfer gosod arwydd mynwent Llandderfel. Cytunwyd i edrych am brisiau eraill am fod pris Cyngor Gwynedd yn ddrud.

c) Cofrestr Tir – cae chwarae Frongoch.

Nodwyd fod y ffurflen wedi cael ei anfon i mewn.

ch) Lloches bws i bentref Frongoch.

Nodwyd fod y cais ariannol i Gronfa Braich Ddu wedi bod yn llwyddiannus ac roedd y lloches wedi cael ei archebu. Roedd pris y contractwyr am osod pad concriid yn llai na'r cwmni lloches bws felly rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt wneud y gwaith.

d) Biniau halen.

Adroddwyd fod y biniau am gael ei ailosod a'i llenwi yn y dyddiau nesaf.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd.

ii) Gorchymyn i gau ffordd y B4401, Llanfor, 17/01/22.

b) Un Llais Cymru.

- i) Eu hymateb i'r ymgynghoriad ar drethi lleol ar ail gartrefi a llety hunan arwylo.
- ii) Diweddariad ar y penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Rheolau Etholiadau Lleol 2021.
- iii) Diweddariad ynglŷn â'r cymwysterau penodol i glercod.

c) Partneriaeth Penllyn.

- i) Cais am gadarnhad o gynrychiolwyr pwyllgorau Cwmni Pum Plwy Penllyn a Phartneriaeth Penllyn. Cytunwyd i beidio newid y cynrychiolwyr.
- ii) Diweddariad ar ddatblygiadau Canolfan Henblas.

ch) Llywodraeth Cymru

- i) Ymgynghoriad ar y 'Ddeddf Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021'.

d) Amrywiol.

- i) Cadwch Gymru'n Daclus – posteri yn hyrwyddo eu hymgyrch baw cwn. Cytunwyd i'w dosbarthu.
- ii) Dŵr Cymru - diweddariad ar y gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
- iii) Triathlon Y Bala - gwybodaeth ynglŷn â'r cyllid a oedd ar gael i grwpiau cymunedol i hybu gweithgareddau chwaraeon yn ardal Penllyn.
- iv) Cyngor Cymuned Llandrillo - e-bost yn gofyn ein barn am Fferm Wynt Gaerwen. Anfonwyd neges yn nol yn cadarnhau nad oedd y Cyngor wedi ei drafod yn llawn gan nad oedd cais cynllunio wedi dod i law.

v) Ceisiadau Cynllunio.

- a) Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:-

C21/0314/04/CR – Codi porth ar flaen eiddo a lolfa haul. Tyn y Ddol, Llandderfel.

C21/0673/04/DT – Adeiladu swyddfa gardd. Cae Wlff, Llandderfel.

C21/1235/04/LL – Estyniad i Barc Gwyliau Pale Wood, Llandderfel.

C22/0002/04/DT - Stiwdio ffotograffiaeth newydd yn lle adeilad allanol presennol. Tŷ Creek, Llandderfel

C21/1046/04/LL - Newid defnydd tir amaethyddol i greu cyfleusterau gwersylla a glampio. Bwlch y Safn, Llandderfel.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r pedwar cais cyntaf ond nodwyd pryder y cynghorwyr ynglŷn â'r cynnydd o drafndiaeth ar y ffordd gul i Fwlch y Safn.

vi) Materion Ariannol.

- a) Derbyniadau.

Derbyniwyd y grant o £3000 o Gronfa Braich Ddu tuag gostau'r lloches bws newydd i Frongoch.

- b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

- c) Cyllideb a Praesept 2022/23 – materion i'w ystyried

- i) Ail danysgrifio i Zoom – cytunwyd i gynnwys y gost yn y gyllideb.

- ii) Etholiadau Cyngor Cymuned 2022 – cytunwyd i gynnwys y costau perthnasol.

- iii) Adolygu cyflog a chostau'r clerc - cytunwyd i gynnwys yr oriau ychwanegol a oedd ynghlwm a chreu'r crynodeb misol yng nghyflog blynyddol y clerc. Cytunwyd i brynu gliniadur i'r clerc ar y cyd gyda chyngor Llanycil.

- iv) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer hyfforddiant, y wefan, ffioedd y banc a gyda'r cynnydd lleiaf i amryw o'r costau gweinyddol. Cytunwyd hefyd i gynnwys £500 i gynorthwyo Neuadd Llandderfel i ail agor y toiledau cyhoeddus yn y pentref. Er bod yr arian tu cefn wedi lleihau yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol cytunwyd fod digon o arian i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y Cyngor tu cefn. Cytunwyd i gadw'r Praesept ar £9,000 ar gyfer 2022-23.

ch) Trefniadau talu ar lein.

Arwyddwyd y ffurflen banc a mabwysiadwyd y fersiwn diwygiedig o'r rheolau 'Adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Cyngor'. Cytunwyd ar uchafswm o £5,000 ar gyfer taliadau dyddiol a £3,000 ar daliad unigol.

d) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag), TWE, HG Webb Designs (gwefan), ICO - taliad DD blynyddol. Amnewid sieciau allan o ddyddiad, Swyddfa Archwilio Cymru, Marie Curie a Neuadd Sarnau.

dd) Ceisiadau Ariannol.

Oherwydd camgymeriad nid oedd cais ariannol Cantref ar gyfer 2020/21 wedi cael ei chyflwyno ar y pryd. Cytunwyd i gyfrannu. Cytunwyd i gadw a thrafod y ceisiadau canlynol ym mis Mawrth, Urdd Gobaith Cymru, Tŷ Gobaith, Ambiwlans Awyr Cymru, Dawns i Bawb, CFFI Meirionnydd.

vii) Materion lleol.

a) Cwyn am lygru ger pentref Llanfor.

Roedd y clerc wedi derbyn cwynion gan drigolion y pentref am yr arogl amaethyddol yn cario o'r caeau cyfagos ac wedi ei basio'n mlaen i adran Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd. Cafwyd eglurhad o'r drefn o ddelio gyda'r math yma o gŵyn ganddynt.

b) Cwyn am gyflwr y llwybr troed ger pentref Llanfor.

Roedd y clerc wedi ei basio'n mlaen i sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

c) A494 yng Nghefnddwysarn.

Yn dilyn damwain yn ddiweddar ar y gyffordd yng Nghefnddwysarn, roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi ail gysylltu â Llywodraeth Cymru i bwysleisio ein pryder am ddiogelwch gyrwyr a oedd yn defnyddio'r ffordd. Derbyniwyd ymateb yn egluro eu bod yn aros am adroddiad yr heddlu mewn perthynas â'r digwyddiad a bydd yn cael ei ystyried gyda'r holl ddata arall i lywio'r angen am welliannau.

ch) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Safle Carafanau Cefnddwysarn - angen torri'r coed wrth y fynedfa.

ii) Tyllau yn y ffordd rhwng mynedfa Cynlas a chroesffordd Cefnddwysarn.

iii) Dŵr dal i lifo ar draws y ffordd ger Ysgol Ffridd y Llyn.

iv) Roedd y cynghorwyr yn ddiolchgar i Adran Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd am ei gwaith yn yr ardal yn ddiweddar ond cafwyd cwyn fod coeden wedi disgyn yn ddiweddar ar un o'r llwybrau. Roedd angen gwella'r step i lawr o'r bont droed ar lwybr Gors y Sarnau hefyd.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 1af am 7.30 y.h. dros Zoom.